# Disgrifiad Swydd - Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Cyfathrebu** |
| **Band cyflog:** | **Band 1** |
| **Ystod cyflog**: **(pro rata)** | **£39,274 – £50,496** Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer yn cael ei gynnig ar bwynt isaf y band cyflog ar gyfer staff newydd. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Uwch Swyddog Digidol** |
| **Cyfeirnod:** | *MBS-135-26* |
| **Swyddfa:** | **Grŵp Llafur Cymru** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos** Bydd angen gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn achlysurol. Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i'r oriau gwaith arferol. |
| **Math o benodiad:** | **Parhaol** Noder: os bydd Arweinydd y Grŵp yn newid, neu os bydd nifer Aelodau'r Grŵp yn newid, mae'n bosibl y daw'r swydd hon i ben. |
| **Lleoliad:** | **Tŷ Hywel** Efallai y bydd gofyniad i ddeiliad y rôl deithio ar gyfer y gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn (hil, rhyw, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran). |
| Sylwer y gwneir y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Y rôl

| Cyfathrebu |
| --- |
| Mae’r swyddi yn y teulu hwn yn cefnogi’r broses o ledaenu gwybodaeth i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, yn unol â'r fframweithiau rheoleiddio y mae Aelodau'n gweithredu o’u mewn. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i'r radd. Mae swyddi yn y teulu hwn yn gyfrifol am brosesau creadigol, cysylltiadau cyhoeddus, datganiadau i'r cyfryngau, cyfathrebu a chynhyrchu cyfryngau, cyhoeddiadau printiedig ac electronig, dylunio / rheoli cynnwys gwefan, a’r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r swyddogaeth Gyfathrebu hefyd yn cynnwys cefnogi, cydgysylltu, llunio a rheoli cyfathrebiadau ysgrifenedig, gweledol a digidol. Gall y rolau hyn hefyd gynnwys rheoli a chydgysylltu digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â'r fframweithiau sy'n llywodraethu gweithgarwch yr Aelodau.<br>**Mae’r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Cynhyrchu syniadau, ymchwilio, creu, ysgrifennu a darparu amrywiaeth o ddeunyddiau cyfathrebu.<br>• Creu, cefnogi a rheoli ymgyrchoedd ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br>• Darparu cyngor technegol a chyfeiriad i’r Aelodau a staff eraill mewn perthynas â dewis a defnyddio amrywiol gyfryngau cyfathrebu.<br>• Strategaethau cyfathrebu rhagweithiol ac adweithiol.<br>• Datblygu a gweithredu prosiectau gydag asiantaethau amrywiol, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r sector gwirfoddol.<br>• Meithrin a chynnal perthynas â rhanddeiliaid. |
| **Diben y swydd** |
| Mae **Swyddog Cyfathrebu Band 1** sy’n gweithio i Aelod o'r Senedd (AS) yn ymgymryd â gwaith ymchwil, gwaith sy'n gysylltiedig â'r wasg a'r cyfryngau, yn goruchwylio'r strategaeth gyfathrebu ac yn rheoli ymgysylltiadau proffil uwch. Byddant yn meddu ar arbenigedd sylweddol a gafwyd drwy gymhwyster proffesiynol neu academaidd neu brofiad cyfatebol, y gellir ei gymhwyso i ystod eang o sefyllfaoedd sy’n berthnasol i gyfathrebu. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
|---|
| • Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig aeddfed iawn.<br>• Dealltwriaeth o'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac Egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm bach. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Dealltwriaeth lawn o'r gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) yn ogystal â fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol). Y gallu i roi cyngor gwybodus i'r Aelodau a chydweithwyr ar y materion hyn.<br>• Profiad sylweddol o greu cynnwys fideo a graffig llwyddiannus, monitro a gwrthbrofi o ran y cyfryngau cymdeithasol, a gweithredu'r arfer gorau diweddaraf ym maes y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol.<br>• Yn meddu ar brofiad sylweddol o dirwedd y cyfryngau digidol gan ddefnyddio'r arbenigedd hwn i ddatblygu strategaethau cyfryngau blaengar a rhagweithiol mewn cyd-destun gwleidyddol. Gwybodaeth am gyfraith y cyfryngau.<br>• Profiad o gynghori a datgan o ran camau gweithredu ar y cyfryngau cymdeithasol ar lefel uwch, a chefnogi timau i ddatblygu ymgyrchoedd.<br>• Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a dylanwadu ar yr agenda cyfryngau cymdeithasol drwy gynllunio rhagweithiol. Datblygu strategaethau i ddiogelu a gwella enw da.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau ymdrin â materion digidol, gan gynnwys cynllunio a darparu strategaeth a chynlluniau cyfathrebu digidol.<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.<br>• Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. |
| **Meini prawf dymunol** |
| • Dealltwriaeth gref o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal |

| |
|---|
| leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Deall amcanion a gwerthoedd y blaid, a blaenoriaethau gwleidyddol yr Aelodau neu'r Grŵp.  Bod yn gyfforddus â pholisïau ac amcanion y blaid, ynghyd â'i dull o wasanaethu'r gymuned.<br>• Profiad blaenorol o weithio ym myd gwleidyddiaeth Cymru, gan gynnwys gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr etholedig. |
| **Cymwysterau** |
| • Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol, neu brofiad addas arall. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Dymunol: Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg |

# Prif ddyletswyddau

*Dyma ystod o ddyletswyddau a fydd fel arfer yn cael eu cynnwys yn y math hwn o rôl. Gellir diwygio manylion yn ôl yr angen, a gellir dileu pwyntiau bwled os nad oes eu hangen / os cânt eu cynnwys mewn rolau eraill, er y cofiwch y gall newidiadau sylweddol effeithio ar raddio'r rôl.*

| **Cyfathrebu strategol a chysylltiadau â’r cyfryngau** |
|---|
| • Datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu digidol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau gwleidyddol Grŵp Llafur Cymru. |
| **Rheoli’r cyfryngau digidol a’r cyfryngau cymdeithasol** |
| • Gosod y naws a'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Llunio a goruchwylio’r broses o lunio a chreu cynnwys amlgyfrwng o ansawdd uchel (gan gynnwys graffeg, fideos a ffeithluniau).<br>• Rheoli'r ymateb i ddadleuon ar-lein ac unrhyw risgiau posibl i enw da. |
| **Ymgysylltu â’r cyhoedd a rheoli rhanddeiliaid** |
| • Goruchwylio’r gwaith o lunio cylchlythyrau, blogiau a chynnwys y wefan.<br>• Trefnu a hyrwyddo cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau ac ymweliadau.<br>• Cynghori Grŵp Llafur Cymru ynghylch negeseuon cyhoeddus a chyfleoedd ymgysylltu cymunedol. |
| **Cyfathrebu seneddol a chyfathrebu polisi** |
| • Rhoi cyngor ar sut i lunio cyhoeddiadau polisi i gael yr effaith fwyaf ar draws y llwyfannau ar-lein sydd ar gael.<br>• Sicrhau cysondeb mewn negeseuon ar draws pob llwyfan. |
| **Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth** |
| • Goruchwylio i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyfathrebu yn cydymffurfio â rheolau'r Senedd.<br>• Cysylltu â thîm cyfathrebu gwleidyddol Grŵp Llafur Cymru ac arweinwyr ar gyfer alinio negeseuon ehangach. |
| **Rhwymedigaethau yn y gweithle** |

**Data -** Cefnogi a chynghori Grŵp Llafur Cymru i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Iechyd, diogelwch a llesiant:**

- Cefnogi a chynghori Grŵp Llafur Cymru yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Diogelu:**

- Cefnogi a chynghori Grŵp Llafur Cymru o ran cydymffurfio â'u rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Materion eraill**

- Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).
- Gwneud penderfyniadau pan nad oes fawr ddim cyngor, canllawiau na chynseiliau ar gael, neu pan nad oes cyngor, canllawiau na chynseiliau o gwbl ar gael, yn unol â dymuniadau Aelodau.
- Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelodau.